Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Cyfarwyddiadau'r Arglwydd Ganghellor - Atodiad 3B

# Arweiniad i ganolwyr yn dilyn cais gan unigolyn i ddod yn ynad

## Dyletswyddau ynad

Mae swydd ynad (a elwir hefyd yn Ynad Heddwch neu'n YH) wedi bodoli yng Nghymru a Lloegr ers cannoedd o flynyddoedd. Mae'r bobl sydd yn y swydd hon yn cyflawni gwasanaeth cyhoeddus hanfodol o fewn y system cyfiawnder ac yn gwrando ar amrywiaeth o achosion. Mae ynadon yn eistedd mewn llysoedd ledled Cymru a Lloegr, ac maent i gyd yn rhoi eu hamser a'u harbenigedd o'u gwirfodd.

Mae'r llys ynadon yn delio'n bennaf ag achosion troseddol a gyflawnir gan oedolion a phobl ifanc (10 - 17 oed). Maent hefyd yn delio â rhai achosion sifil a materion eraill fel gorfodi diffyg talu treth cyngor. Mae ynadon hefyd yn eistedd yn y Llys Teulu lle gwrandewir rhai anghydfodau teuluol er enghraifft a ddylid gwahanu plant oddi wrth eu rhieni. Mae'r penderfyniadau a wneir ganddynt yn cael effaith uniongyrchol ar unigolion yn y system gyfiawnder.

Mae'n bwysig bod canolwyr yn onest am addasrwydd a gallu'r ymgeisydd i fod yn ynad. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau mai dim ond yr unigolion mwyaf addas sy'n cael eu penodi i'r swydd gyhoeddus bwysig hon.

## Eich rôl chi fel canolwr

Mae'r ymgeisydd wedi eich enwebu chi i ddarparu geirda i gefnogi eu cais i ddod yn ynad. Bydd yr holl wybodaeth rydych yn ei darparu yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac ni fydd yn cael ei rhannu â'r ymgeisydd.

Os ydych chi'n teimlo na allwch chi ddarparu geirda, rhowch wybod i'r ymgeisydd ar unwaith fel y gallant enwebu rhywun arall. Os gallwch ddarparu geirda, gwnewch hynny erbyn y dyddiad y gofynnwyd amdano i osgoi gwrthod cais yr ymgeisydd.

## Pwy all ddarparu geirda?

I ddarparu geirda ar gyfer ymgeisydd i'r ynadaeth:

- rhaid eich bod chi wedi adnabod yr ymgeisydd am o leiaf tair blynedd oni bai mai chi yw cyflogwr yr ymgeisydd;

- rhaid i chi beidio â bod mewn perthynas agos neu'n aelod o deulu'r ymgeisydd;
- ni ddylech ymddangos yn rheolaidd gerbron y llys y gellid penodi'r ymgeisydd iddo, boed hynny mewn capasiti personol, proffesiynol neu wirfoddoli a
- rhaid i chi ddatgan os ydych chi'n ynad neu'n ddeiliad swydd farnwrol.

**Nodweddion personol ynad**

Gweler isod y priodoleddau allweddol y mae'n rhaid i ynad feddu arnynt. Profir y rhain drwy gydol y broses ddethol. Cofiwch gadw'r canlynol mewn cof wrth ysgrifennu eich geirda.

- **Deall a Gwerthfawrogi Safbwyntiau Gwahanol**
- **Cyfathrebu gyda Sensitifrwydd a Pharch**
- **Gweithio ac Ymgysylltu â Phobl yn Broffesiynol**
- **Gwneud Penderfyniadau Teg, Diduedd a Thryloyw**
- **Dangos Hunan Ymwybyddiaeth a bod yn Agored i Ddysgu**

Am fwy o wybodaeth am sut y dylai ymgeiswyr ddangos y priodoleddau hyn, gweler y ddolen ganlynol: [https://magistrates.judiciary.uk/].

Hefyd, bydd gofyn i ymgeiswyr ddangos eu bod o gymeriad da ac nad oes dim yn eu bywyd cyhoeddus neu breifat a allai ddwyn anfri ar yr ynadaeth. Rhaid iddynt hefyd ddatgan eu bod yn barod ac yn gallu cyflawni'r ymrwymiad amser o 13 diwrnod y flwyddyn fel isafswm ar gyfer eistedd yn y llys.